



## YSGOL I.D. HOOSON

07.01.22

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Edrychwn ymlaen i groesawu'r plant i gyd yn ôl i'r ysgol ar ddydd Llun Ionawr 10fed, gan obeithio eich bod i gyd wedi cael Nadolig plaserus. Rydym i gyd yn gobeithio y bydd 2022 yn flwyddyn well i ni gyd o ran y sefyllfa yn ymwneud a Covid-19.

Hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth bwysig i chi ar gychwyn y tymor newydd. O ran y sefyllfa yn ymwneud a Covid-19, byddwn yn parhau i weithredu y trefniadau iechyd a diogelwch sydd yn barod wedi bod mewn grym yn ystod tymor yr Hydref. Gan ddilyn canllawiau ac awgrymiadau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol byddwn yn ail-gyflwyno rhai mesurau oedd mewn grym yn ystod y cyfnodau clo blaenorol. Bydd y mesurau hyn yn gofyn i ni fel staff weithredu newidiadau, ond hefyd yn gofyn am gydweithrediad y disgyblion a chi fel rheini a gofawlyr wrth i ni ymdrechu i sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw risg i bob un sydd yn rhan o gymuned yr ysgol. Gan ein bod yn parhau i fod mewn sefyllfa ansicr, mae'n bosib y bydd angen i ni weithredu camau pellach yn ystod y tymor, a all gynnwys dosbarthiadau penodol yn symud i ddysgu ar-lein.

**SYMPTOMAU** - Os yw eich plentyn yn dangos symptomau Covid-19, neu aelod arall o'r cartref wedi profi'n positif am Covid-19 NI DDYLAI'R PLENTYN FYNYCHU'R YSGOL. Dylech ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru a hysbysu'r ysgol cyn fod eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Y prif symptomau o Covid-19 yw:

**Tymheredd uchel:** bydd brest neu gefn eich plentyn yn boeth i'w cyffwrdd

**Peswch cyson, newydd:** bydd eich plentyn yn peswch llawer am fwy nag awr, neu'n cael 3 neu fwy o bylliau peswch mewn 24 awr

**Colli synnwyr arogli neu flasau, neu newid yn y synnwyr arogli neu flasau:** bydd eich plentyn wedi sylwi nad yw'n gallu arogli neu flasau unrhyw beth, neu fod pethau yn arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

### Amseroedd cychwyn a gorffen

Meithrin	9:00 - 11:30(bore) / 12.30-3.00(p'nawn)
Derbyn/ Blwyddyn 1 & 2	8:55 - 15:00
Blwyddyn 3,4,5 & 6	8.55-3.15

**Clwb Brecwast / Clwb ar ôl ysgol** - Mae rhain ar gael ond dim os nad yw yn bosib i chi wneud unrhyw drefniant goruchwylio arall.

**Cyrraedd / Mynd adref** - Ar ddydd Llun y 10fed, bydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn yr un drefn ag oedd yn cael ei weithredu cyn y Nadolig. Mae hyn yn golygu fod disgwyl i bob plentyn fod wedi cyrraedd yr ysgol mewn amser fydd yn galluogi iddo ef/hi gychwyn ar wersi cyntaf y dydd am 8.55. Fel yn ystod tymor yr Hydref, bydd disgyblion y cyfnod sylfaen yn cael mynediad drwy'r fynedfa i'r chwith o flaen yr ysgol, gyda cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r fynedfa sydd i'r dde.

**Clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol** - Byddwn yn hysbysu rheini/ofalwyr o wybodaeth yn ymwneud a phryd y bydd clybiau yn ail-gychwyn, dros yr wythnosau nesaf.

**Pan ar gampws yr ysgol, gofynnir i bob rhiant/ofalwr wisgo gorchudd wyneb neu fwgwd addas. A fydddech cystal â pharchu iechyd a diogelwch eraill drwy gadw pellter diogel oddi wrth eraill.**

Rydym yn gweithredu trefn amserlen fel y tymor diwethaf, sydd wedi lleihau y nifer o oedolion sydd yn cyrraedd y buarth i gasglu'r plant. Er hyn, mae'n parhau i fod yn le prysur, ac felly gofynnir i bawb gadw pellter diogel o eraill a chymryd gofal wrth ymadael a'r buarth a safle'r ysgol. Er **mwyn hwyluso'r trefniadau ymhellach, a chadw nifer o oedolion sydd ar fuarth yr ysgol i'r lleiafswm, un oedolyn/ofalwr a ganiateir i ddod ar y buarth i gasglu'r plentyn.** Rydym yn eich annog i gadw eich plentyn gyda chi unwaith y mae ef/hi wedi ei ryddhau gan yr athro/awes ddosbarth, er mwyn osgoi fod y plant yn cymysgu gyda phlant sydd y tu allan i'w grŵp dosbarth.

Unwaith y byddwch wedi gollwng eich plentyn yn yr ysgol yn y bore a / neu gasglu ar ddiwedd y prynhawn, rydym yn gofyn i bob rhiant ymadael a safle'r ysgol cyn gynted ac sydd yn bosib. Byddai hyn yn gymorth mawr i'n trefniadau dyddiol. Diolch

**Cyswllt athro/rhiant** -. Cofiwch o oes mater pwysig yr hoffech ei drafod yn glŷn ag addysg eich plentyn, yna yn yr achos gyntaf, bydd angen gwneud hyn drwy e-bost i'r athro/awes ddosbarth. Bydd llythyron a negeseuon a all fod yn berthnasol i ddosbarth eich plentyn yn parhau i gael ei hysbysu drwy gyfrwng Schoop, App yr ysgol, Trydar ac wrth gwrs gwefan yr ysgol

Cysylltwch gyda'r gyda'r swyddfa drwy [mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk) am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Diolch yn fawr.

Yn gywir,

*Rhodri Jones*  
Pennaeth